Cyfres Llanbedr | Awst, 1926. | Cyf. 26. Rhif 8.

Profwch bob peth: Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. Y. Parch. T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

NODION Y GOLYGYDD.
PREGETH MR. PHILIP PUGH.
O DAN Y DDERWEN.
LLWYBRAU'R SAINT.
Y SYNAGOG.
YR YSBRYD.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.

Y Gwirionedd a'ch rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Geiriadur Beiblaidd

Y Gwaith Pwysicaf ar y Beibl
a Gyhoeddwyd yn Gymraeg.

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.
Pris 1/6 y Rhifyn.

I'w gael o Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty.

Gan ROLAND THOMAS, M.A.
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-. ; Drwy'r Post, 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

.. Yr Ymofynnydd. ..

CYFRES LLANBEDR. AWST, 1926. CYF. XXVI. RHIF 8.

NODION Y GOLYGYDD.

GYN cyhoeddi'r rhifyn hwn bydd hen eglwys Llwynrhydowen wedi dathlu 'i dau can mlwyddiant a naturiol aros ar ben y garreg filltir hon a thaflu cipdrem yn ol er gweld y llwybr igam ogam a droediwyd.

Dywedai'r Golomen wrth yr Eryr yn Llyfr y Tri Aderyn,—"Na chais ystwytho cydwybod neb i'th opiniwn di drwy rym ond drwy reswm ; a chadw heddwch i bob un i ddwedyd ei feddwl, os heddychlon yw."

Mynnai Milton yn ei Areopagitica :

"These are the men cried out against for schismatics and "sectaries, as if, while the temple of the Lord was building . . . "there should be a sort of irrational men who could not consider "there must be many schisms and many dissections made in "the quarry and in the timber ere the house of God can be built."

Rhywbeth ar yr un llinell oedd meddwl Baxter pan ddywedodd :

"You may as well tell anyone to take the same size in shoes."

Edrych y broddegau hyn yn dra gwahanol heddiw a phan lefarwyd hwynt. Ond rywsut y maent yn cyfeirio at ddelfryd Jeremy Taylor, "Ni fedraf weld sut y gall un dyn gyfiawnhau gwneuthur y ffordd i'r nef yn gulach nag y'i gwnaethpwyd gan Iesu Grist."

Hyd y medraf i weld, y mae gwir ymhob credo a luniwyd erioed a chan bob enwad hefyd neu ni buasent fyw am ganrifoedd. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng yr enwadau ar wahan i'r termau a ddefnyddir yw pwysleisio rhan wahanol o'r gwirionedd a phe medrid gwybod yn sicr dros beth ym meddwl yr oes heddiw y saif y termau hyn credaf y gallasem yn rhwydd anghofio'n mân wahaniaethau a'n cwerylon dibwys. Y peth goreu a fedrwn ni wneuthur yw

cymryd fod y bobl hyn ar waethaf yr erlid yn bobl onest ac o ddifrif yn eu hoes a'u dydd, er yn gwybod hwyrach fod yn yr oes honno fel yn ein hoes ni "lawer a lliw colomenod arnynt a naturiaeth y gigfran ormod ynddynt,"

* * *

Mewn hen lawysgrif fe geir cân ar y ffurf o ymgom rhwng y pedwar enwad yng Nghymru wedi'i harwyddo: "David Evan ay cant, Ionawr y Seithfed, 1731,"

Pedwar ymdeithydd yn cwrdd ai gilidd
Wrth fynd tua mynydd mowr yr Oliwydd
Gwr Eglwys Lloeger yn cwrdd a Quaker
Wrth gors anobeth mewn dyfryn difeth
Dechre ymholi ar ffordd u croesi
Ar llwybr dynol cul yn y cenol.

QUAKER:

A wyti 'n tybio y gall bedyddio
Olchi oddiallan bechod nid bychan
Nid wrth di ddonie na'th ffyrf weddie
Y doi di o gwmpas byth yr briodas.

EGLWYSWR:

Fairwell y tithe rwi'n wilo yn ddropie
Weld dy dryeni yn goll Ynghrist Iessu.

AILFEDYDDIWR:

Yr wi fi yn ddin newydd wedi cael bedydd
Yn fi llawn drwsiad ni alla ddwad.
* * * Mae Joan yn erchi
I bawb gretto ddwad y bedyddio.

YR EGLWYSWR:

Ma'u Crist ei hynan yn fwy nag Ioan
Yn gresso'n llawen lli o blant bychen.

DISENTER:

Yr wi 'n professi ffydd ynghrist Iessu
Ag yn ddisenter o'r Common Prayer
Hefid offeiried mydion pen galed
Sy'n darllen gweddi o flaen pregethy
Gweddi o'r galon sy weddi union
Rhaid yw myfurio cyn gwneithir honno.

EGLWYSWR :

Y mau 'n eithafoedd harddwch y nefoedd
Angelion Seintie y gid ar un geirie.

Y DISENTER :

Yn awr mifi ilda dos mi thylyna
Duw a'n bendithio ag a'n cyfrwyddo.

* * *

Duw o'i fawr dyner dirion drugaredd
Rotho grass inni y wir ddifari
Oedran Crist Iessu y flwyn leni
Mil saith cant cyfen deng mlwydd a'r higen.

Pwy bynnag oedd y David Evan a ganodd y gân yr oedd yn deg i'w wrthwynebwyr ac yn medru rhoi'u dadl hwy yn gryfach na'i eiddo ei hunan er mynnu ohono y fuddugoliaeth yn y diwedd a'r Disenter wedi aduno a'r eglwys.

* * *

Nid oes odid neb heddiw yn Galfin. Y mae Calfiniaeth wedi ei gweddnewid ers blynyddoedd bellach ond diddorol heddiw yw mynd yn ol er gweld beth a olygai Calfiniaeth yn nyddiau Jenkin Jones yn 1726. Wrth feddwl am hyn daeth llyfryn bychan i'm llaw "Golwg ar Holl Grefyddau y Byd." Bethesda. Argraffwyd gan R. Jones, a dyma a ddywed am y Calfiniaid :—

" Y maent yn credu fod Crist wedi ei ethol yn Ben yn y Cyfamod
" Gras, a bod tyrfa fawr wedi eu hethol yn Nghrist er tragywydd-
" oldeb, i sancteiddrwydd, yn y byd hwn, ac i fywyd tragywyddol
" yn y byd a ddaw. Maent yn credu hefyd mewn pechod gwreidd-
" iol, bod dyn wedi cwbl lygru o wadn y troed hyd y coryn trwy
" gamwedd Adda, a'i fod ef trwy y pechod hwn (heb son am
" ei aneirif bechodau eraill) yn agored ac yn rhwym i lidiaw-
" grwydd llymdost yr anfeidrol Dduw. Hefyd, daliant bryned-
" igaeth neillduol, na bu Crist farw dros neb ond dros y rhai a
" garwyd a chariad tragywyddol, y rhai a etholwyd gan Dduw
" cyn bod na dyfnder nac uchder. Daliant hefyd barhad mewn
" gras : maent yn addef y dichon y saint syrthio ymaith wrth
" ystyried yr hyn ydynt ynddynt eu hunain. Ond eto nad ydynt
" un amser yn cael eu gadael gan yr Ysbryd Glan, o dan arglwydd-
" iaeth a gallu eu pechodau ; ac oherwydd hyny hwy a ddaliant
" gyffes eu gobaith yn ddisigl. Addefant fod yn bosibl i'r Saint
" golli eu cysur yn fynych, ond nid colli eu gras unwaith gan
" ystyried tra mae pob peth yn bosibl gyda Duw, fod hyn yn
" anmhosibl gyda phawb."

Y mae un peth yn bwysig. Nid y "Drindod" na "Pherson Crist" oedd achos yr ymrannu ym Mhantycreuddyn nac yn Henllan ychwaith. Dyma hanes y frwydr yn Henllan fel y'i rhoir yn Hanes Eglwysi Ann. Cymru Cyf. III. tdd. 357—359. "Yr oedd Mr. Owen (sef y Parch. David Owen brawd hynaf James Owen) yn dal Calfiniaeth gymhedrol y fath a ddysgid yn ysgrifeniadau Dr. Daniel Williams a Phresbyteriaeth oedd y ffurf-lywodraeth eglwysig y safai drosti. Yr oedd Mr. Thomas o'r tu arall yn sefyll yn dyn dros Uchelgalfiniaeth fel y dysgid hi yn ysgrifeniadau Dr. Thomas Goodwin a Dr. Crisp ac Annibynwyr eithafol. Aeth gwahaniaeth barn y ddau bregethwr yn fuan yn destyn dadleuon poethion rhwng yr aelodau. Parhaodd y ddadl yn ei ffyrnigrwydd trwy y blynydd-oedd 1707, 1708 a 1709. Cyhuddai plaid David Owen blaid Lewis Thomas o ddal syniadau Antinomaidd mwyaf gwrthun a phen-rhyddid yn lle llywodraeth eglwysig drefnus. a chyhuddai plaid Lewis Thomas eu gwrthwynebwyr o fod yn Neominiaid."

Y mae'n naturiol i ni heddiw wylltu at y termau hyn. Ond teg ydyw gwybod mai nid er dim y gwrthwynebwyd yr Antinomiaid yn Henllan nac yn unlle arall. Myn "Golwg ar Holl Grefyddau y Byd" fod yr Antinomiaid yn "dal nad yw y gyfraith yn rheol bywyd i gredinwyr, ac megis nas gall yr etholedig dorf, syrthio ymaith o gyflwr grasol, na fforfedu y dwyfol ffafr, nid yw y gweith-redoedd drwg a gyflawnant yn wir bechodau, nac idd eu hystyried yn drosedd o ddeddf Duw, ac felly o ganlyniad, nad oes ganddynt un achos i gyffesu eu hanwireddau i'r Arglwydd, nac i dduwiol dristau o'u herwydd."

Y mae'r hen enwau a'r termau hyn yn ddiddorol i ni fel y "ffosil" i'r daeregwr neu "benglog" i'r difynnwr, oherwydd dangosant inni dw a datblygiad ein crefydd. Y mae y Parch. Alexander Gordon, M.A. wedi ysgrifennu nodyn diddorol ar y termau hyn. "Deil yr *Ariaid* fod y tri pherson yn fodau cwbl wahanol; fod y Mab (neu'r Gair) a'r Ysbryd Glan er yn bod cyn dechreu amser eto yn ddyledus am eu bodolaeth i ewyllys y Tad yr hwn yn unig yw y Duw goruchaf. Deil y Trindodiaid fod yn Nuw dair personoliaeth neu dri pherson yn gwbl wahanol (distinct) a'r tri yn ddwyfol cystal a'i gilydd. Deil y Sociniaid gyda'r Ariaid mai'r Tad yn unig yw'r Duw Goruchaf: Daliant hefyd farn yr Ariaid am y Mab (er yn gwrthod iddo rag-hanfod) gan gymryd barn y Sabeliaid am yr Ysbryd Glan (a'i esbonio fel dylanwad dwyfol). Y mae'n nodweddiadol o ddiwin-yddiaeth y Sociniaid eu bod yn taflu dros y bwrdd y syniad o'r Iawn yn ol yr hon y dioddefodd Crist er cymodi y Tad a nyni gan ddal yn hytrach fod gwaith Crist yn gweithredu nid ar Dduw ond ar Ddyn."

Y mae'r dadleuon hyn wedi darfod o'r tir. Ar waethaf anair yr haneswyr, y mae'r mudiad yn dal yn ei nerth a phan ysgrifennir hanes Crefydd yng Nghymru credaf y rhoir lle anrhydeddus i'r ychydig wladwyr syml a'u harweinwyr selog a droes y llanw oddiwrth Antinomiaeth at Arminiaeth gan bwysleisio Cariad Duw ac esiampl Iesu pan oedd mawr angen am hyny.

PREGETH MR. PHILIP PUGH.

[Philip Pugh. Ganwyd yn yr Hendref, Blaenpennal yn 1679. Addysgwyd ym Mrynllywarch ac Abergavenny. Ordeiniwyd yn 1709 yn gydweinidog a David Edwards, Jenkin Jones a David Jenkins yn y Cilgwyn, Crugymaen, Caeronnen, Ciliau a mannau eraill. Bu farw yn 1760.

Codwyd Nodiadau y Bregeth o Add. Mss. 368 A. Nodiadau gwrandawr ydynt yng Nghapel Mynydd Bach, ger Llandilo, Gorff 21, 1742.—
Y Gol.]

1. Pet. 1. 17.

Yn y geirie mae cyngor o ddoyran.

1. Cynor 1. 2. Rheswm anogaethol. Rhodio mewn ofn dros amser eu hymdeithiad.

2. Anogaeth yn y rhan flaena o'r Testyn ath Fe ddyle yr Rhai sydd yn blant i Dduw goruchaf rodio mewn ofn dros amser eu bywyd. Yr ofn sydd yn ddechreuad doethineb.

Mae tri ofn na ddyle Xianogion ofni.

1. Ofn cnawdol a bydol. Ofn dynion. Ofn croesai bydol. Dat. 21. 8.

2. Ofn Angrhediniol anobaithiol pan mae dynion yn ofni na thal iddynt geisio trugaredd. Dyma'r fath ofn sydd ar yr ysbryd drwg. Math. 11. 28.

3. Ofn slafaidd o Dduw : Ni ddylid parhau yn hwn yn wastadol ond y mae tros amser. Bod mewn dychrynfeuydd uffernol.

Ofnau i barhau dros amser ein bywyd.

1. Ofn parchus o fawredd Duw. Heb. 12. 28. Abraham yn cyfri ei hun yn llwch ac lludyw, etc.

2. Ofn delio a Duw allan o gyfryngwr.
Gochelwch bwyso ar hunan gyfiawnder.

3. Ofn pryderus o bechod a phrofedigaethau Luc 21, 34. Math. 26, 42.

4. Ofn o oeri a llaesu mewn crefydd ie. mewn un pwngc mae'r Xon yn debig i Bysgodyn mewn ffrwd. Yr hwn sy'n sefyll edryched na bo iddo syrthio.

Paham y dyle Xianogion rodio mewn ofn dros amser eu bywyd.

1. Obleg. eu bod yn delio a Duw Mawr. Psalm 45, 11.

2. Am ein bod yn delio a Duw am fatter bywyd, ie., bywyd tragwyddol. 1. Pet. 5, 8.

3. Am fod Satan fel llew rhuadwy ac yn ymosod arnom ni ei brofedigaethau.

4. Am fod ein hamser yn fyr yn Byd.

O DAN Y DDERWEN.

GAN ANTHROPOS.

Y MAE'R cylchoedd cyhoeddus yn llawn i'r ymylon, ond y mae cyflawnder o le yn yr encilion. Nid oes neb yn gwthio ei gerbyd ar lwybrau'r wlad. Diolch am danynt. Yr hen lwybrau caredig, wedi eu haddurno yng ngwisgoedd yr hafddydd, awelon hedd yn crwydro ar eu tro, ac yn ymdonni dros gaeau gwair ac ŷd.

Wedi bod yn eistedd am ennyd ar y gamfa awn rhagom i gysgod y llwyn. Cawn laswellt yn garped i gerdded drosto, ac yn y man deuwn i dramwyfa'r pysgotwyr ar lan yr afon. Yma y daw gwŷr yr enwair i hudo'r brithyllod at yr abwyd, gyda mesur mwy neu lai o lwyddiant.

Ond dylai'r pysgotwr gael ei farnu gan y sawl a wyr rywbeth am y gelf gain. Nid oedd Doctor Johnson yn gwybod dim am y gyfrinach, a dyna ei ddeffiniad ef o deyrnwialen y pysgotwr.—"Ffon hir, llinyn a bach yn un pen iddi, a ffwl yn y pen arall."

Os mynner deall rhywbeth am wynfyd y pysgotwr, dylid darllen y *Compleat Angler* gan Isaac Walton. Gwn am rai brodyr a wnaeth hynny, ac ni allent ymatal heb brynu genwair, a chodi trwydded. A dyna'r oll. Nid oes sicrwydd iddynt ddal yr un pysgodyn.

A oeddynt yn ymddwyn yn ffol? Dim o'r fath. Y mae teimlo cyfaredd min yr afon yn rhywbeth na ellir ei bwyso yng nghloriannau Doctor Johnson. Gallwn ddarllen ei fywgraffio dihafal gan Foswell ar hirnos gaeaf. Ond fel cydymaith hirddydd haf dewisiwn Isaac Walton.

Eisteddwn wrth fon y dderwen, a chawn ei changau yn gysgodlen werddlas rhag pelydrau twym yr haul. Dodwn y llyfr ar y mwswg, a chymerwn "fygyn" i ddathlu'r amgylchiad. Yma cawn olwg ar y cynhaeaf y sonia Wordsworth am dano :—

"The harvest of a quiet eye."

Dyna'r llygad sydd yn gweled. Iddo ef y mae anian yn datguddio ei chyfrinach. Sonir cryn lawer am "fynd at Natur." ond ni ellir mynd ati hi fel yr eir i'r orsaf neu'r masnachdy. Rhaid bod mewn cywair meddwl i fedru croeshawu'r dylanwad distaw, ac yna daw Natur atom ni yn ei hudoliaeth a'i swyn. Daw pob synwyr a feddwn yn "ysbryd gwasanaethgar," Daw arogl y rhosyn gwyllt gyda'r awel o'r gwrychoedd cyfagos :—

O rosyn y gwrych,
Mor hardd yw dy ddrych
Dan wenau cariadus yr hafddydd

O amgylch y clawdd uchel gwelir rhai o gynrychiolwyr y "bysedd cochion," neu "ffiolau'r ffridd." Hudir y gwenyn i'r ffiol. Lled undonog y gerdd, ond y mae'n rhan o felodi yr haf.—"Cacynen mewn bys coch."

Yn y pant y mae'r afon loyw, lefn, a llyn dwfn, a'r helig yn plygu ar y glannau. Chwery'r gwybed uwchben y dwr. Naid ambell frithyll at y pryf, a disgyn eilwaith, gan beri cylchau ar wyneb y llyn. Dro arall daw awel o rywle i grychu'r dwr, ond rhyfedd mor ebrwydd y daw'r llyfnder yn ol.

Nid ydyw dyfnderau'r llyn yn gwybod dim am y cyffro bach ac arwynebol,—

Y llyn dyfnaf yr afon,
Lleiaf, fis haf, yw ei son.

Gellir clywed alaw'r afon wrth dreiglo dros y cerrig man. Distaw ydyw'r llyn. Y naill ar gyfer y llall. Ni fynnem i'r afon fod yn ddilafar a mud. Camlas sydd felly. Y mae miwsig yr afon ar fin nos, o'r pellter, yn ein cludo i fro ddedwydd breuddwydion :—

Gwrando dwndwr afon
Yn y cerrig mân,
Ddeffry yn y galon
Felys, felys gân.

Tu hwnt i'r lli gwelir y ddoldir hynaws, un o'r porfeydd gwelltog gerllaw'r dyfroedd tawel. Pawr y defaid ar y twyni gleision. Sudda'r haul i'r gorllewin, a theifl ei adlewyrchiad ar y mynydd draw. Saif Moel Eilian rhyngom a'r Wyddfa, a cheisia ei chuddio o'n gŵydd. Ond yn ofer. Gall yr agos ddarnguddio'r pell, y bach y mawr. Ond y mae'r Wyddfa yn edrych i lawr o'r uchelion, ac yn gwenu ar ei phlant yn codi ar flaenau eu traed i dreio bod daled a'u mam!

Arddunol yw yr Agos
Ond nefol yw y Pell.

Gyda'r pethau agos yr ydym wedi bod o dan y dderwen. Y mae arnom eisiau y rhain. Onid oes deunydd Paradwys yn rhosyn y drain? Y mae afon a'i ffrydiau yn llawenhau y galon, ac yn llonyddu ein myfyrdodau.

Meddyliem am y dderwen honno ar "wastadedd Mamre," ac engyl yn cynadleddu o dan ei changau llaes. Cynadleddu—nid cynnal pwyllgor. Nid oedd hwnnw, o bosibl, wedi ei ddyfeisio ar y pryd, a gresyn iddo gael ei ddyfeisio o gwbl! Ond y mae byd o bellter rhwng cynhadledd a phwyllgor. Rhyddiaith noeth ydyw pwyllgor, ond y mae'r gynhadledd yn perthyn i fyd yr angel—byd barddoniaeth yr oesau.

Cynhelir y pwyllgor yn y festri, a'r gynhadledd o dan y dderwen ar "wastadedd Mamre." Ple mae hwnw? Nid ydyw yn yr un man i bawb. A oes tocyn rhad i fynd yno? Digon prin.

LLWYBRAU'R SAINT.

O THERE are Voices of the Past,
Links of a broken chain,
Wings that can bear me back to Times
Which cannot come again;
Yet God forbid that I should lose
The echoes that remain!

Yr oedd yn noson dawel, noson o haf. Cysglyd oedd awel yr hwyr. Nid oedd brys arni hi na minnau o ran hyny er ei bod yn tynnu am hanner nos. Gwlana yr oeddwn oherwydd yr oedd yn rhy fwll i gerdded a brysio. Yr oedd twi-twi yr adar wedi peidio ond doi tyhw'r ddylluan fel llef ysbryd ar ddisberod. Dro hir ceisiwn adnabod y blodau na fedrwn weld wrth eu harogl oherwydd erbyn hyn unlliw i mi oedd Coch Dail Bysedd Cwn a'r Rhosyn gwyllt a glâs y Fioled neu Goesau Brain. Yr cedd perarogl ambell un yn hyfryd. Nid felly'r llall. Doi'r arogl ar yr awel fel y gwawn a llenwid yr awyr ag arogl gwair newydd ladd. Yr oeddwn wedi oedi dro i wrando ar henwr yn galw'r gorffennol yn ol. Yr oedd mwsg yn yr awel a'r awyr yn llawn o ysbrydion yr anwel. Teimlwn fod yr anweledig yn agos a minnau'n y mwd. Nid oedd nemor o amser er pan fu henwraig yn darlunio imi y "*gannwyll gorff*" a welodd ar hyd y briffordd ac yn diffodd ym mynwent Bethel ar y Bryn. Cyn pen wythnos yr oedd corff wedi mynd ar ol y gannwyll. Dro arall daeth henafgwr i'm ty. Yr oedd ol y drain a'r dyrysi ar ei wyneb gwelw fel pe buasai wedi bod wrthi yn torri perth o ddrain. Yr oedd yn ofnus. Dod adref ydoedd berfedd y nos ac wedi cyfarfod ag angladd ar y ffordd. Ni fedrai ei weld ond fe'i gwthid gan y dorf i'r clawdd ac yr oedd wedi costi ymdrech galed iddo gyrraedd y ty drwy'r drain a'r dyrysi. Ni

fedrwn ei ameu oherwydd yr oedd y gwaed a'r braw yn tystio drosto.

Rhyw hanner breuddwydio felly yr oeddwn y noson hon. Rhyw geisio esbonio'r paham na chawn i weled "cannwyll gorff" neu "angladd anweledig": (Gweledig yw f'angladdau i.) Ymlwybro ar antur tuag adref yr oeddwn, dyna i gyd, gan adael y meddwl i wibio ffordd y carai. Yr oedd yr ewyllys wedi cysgu. Yr oedd y corff a'r ysbryd yn dod megys fraich ym mraich. Yr oeddent ar delerau da ond rywsut yr oedd yr ysbryd yn mynnu rhagor o'i ffordd nag arfer. Ni fedraf esbonio'r teimlad ond teimlwn fod yna *ddau* ac nid *un*.

A minnau'n y mwd hwn deuthum at "Yr Hirfaen", hen faen neu gromlech fwsoglyd ar ganol y rhos. Yr oedd y tywyllwch yn dewach yma dyna'i gyd. Yr wyf wedi'i phasio droion yn ddifeddwl ddigon ond nid felly y noson hon. Cofiodd rhywbeth ynof, yr ysbryd hwyrach, fod cynneddf i'r hirfaen. Mynnai'r teidiau ei fod ynghlych Y Tylwyth Teg ac ofnid eistedd arno ar hanner nos. Yr oeddwn i rhwng cwsg ac effro ac eisteddais arno ar hanner nos. Yn y pellder clywn hen gloc mawr y dref yn taro deuddeg. Cofiais. *Eistedd ar yr Hirfaen ar ganol nos*! Teimlwn y chwys yn rhedeg drosof. Yr oedd yr hin yn boeth ond y drwg am dani, oer oedd y chwys bellach. Yr oedd yn rhy ddiweddar i godi mwy ac yr oeddwn yn rhy wan i redeg. Arosais ac ni bu raid aros yn hir. Tremiwn i'r gwyll ac yr oedd y tywyllwch yn teneuo. Yn y man yr oedd rhyw oleu pwl gwan dros y rhos. Nid oedd yn oleu na thywyll, ac yr oedd pob man mor oleu neu dywyll a'i gilydd. Cofiais yr hen wheddel y ceid gweledigaeth os siglai'r hirfaen dan ddyn ar hanner nos. Un peth oedd sicr. Yr oedd y maen neu minnau'n siglo. Fel y llonyddai'r un ohonom, ta p'un ydoedd daeth y dyn lleiaf nid a welais ond a freuddwydiais am dano i'r golwg yn fy ymyl. Nid oedd yn agos o faintioli plentyn sugno, ond ni ryfeddwn ddim. Cerddodd deirgwaith gylch yr hirfaen. Gwyrdd oedd ei wisg unlliw'r Werddon. Siaradai iaith na ddeallwn i. Ymhen ennyd gwelwn y rhos yn tywyllu eilwaith ond ar hyd y rhos yr oedd llinellau arian, llwybrau goleu. Yr oeddwn wedi edrych ar fap lawer tro a rheilffyrdd yn llinellau coch yn cydio'r gwahanol drefi. Tebig i hynny yr oedd y rhos heno. Gwyddwn i am lawer llwybyr ond yr oedd llwybrau yma heno na welais i, a phob llwybyr yn arwain i'r unman.

Gwelwn oleu yn ffenestr ambell fagwyr a bwthyn bychan to gwellt ynghornel cae lle na welais i ond cylch tylwyth teg erioed. Fan draw y mae Troedyrhiw, Tynewydd, Carcoed, Constantinople, Cwmcardinen, Y Waun, Three Cocks, Wern, heblaw llu eraill.

Syllais yn hir ar y llwybrau a thros bob un ohonynt fe welwn rywun neu rywrai'n dod. Gwladwyr syml oeddent mewn brethyn cartre. Er na welais i erioed o'r blaen yr un ohonynt yr oeddwn yn eu hadnabod o bell. Yr oedd rhyw oleu dieithr yn eu llygaid, disgleiriach na goleu pwl y llwybr. Cerddent yn benisel ac yr oedd defosiwn ym mhob ystum. Yr oedd ambell un wedi'i grymu gan y byd a'r llall yn unionsyth fel y saeth. Ymhen ennyd yr oedd y llwybrau'n llawn a phob llwybr yn arwain i'r hen ysgubor. Aethant i golli bob yn un ac un a minnau'n gwrando. Bob yn dipyn clywn leisiau'n canu ie'n moli Duw. Yr oedd chwant arnaf innau nesu at yr Ysgubor. Meddyliais mai "Merched Beca" oedd yn cyfarfod yno. Edrychais ar y dyn bach a gwenodd yntau. Cerddasom at ryw ffenestr fach. Yr oedd yr ysgubor yn oleu ac yn llawn. Pob teulu yno'n gyfan a *rhywun* yn son wrthynt am Dduw Cariad.

Ni fedrwn i ddywedyd gair am oedfa'r nos. Daeth y cyfarfod i derfyn. Wele hwythau'n ymlwybro eilwaith dros y rhos a'r llwybrau goleu yn eu harwain. Nid oedd lusern gan undyn ond deallodd fy nghydymaith fy nghywreinrwydd a dangosodd imi fod pob un ohonynt yn goleuo yn ol purdeb ei gymeriad. Wedi meddwl yn hir, gwelwn fod ambell lwybr a rhyw gysgod drosto. Edrychais eilwaith yn wyneb rhyw fforddolyn a gwelais fod pob wyneb

yn dangos y cymeriad. Mor wahanol fuasai'n byd ni pe buasai felly bob amser. Yr oedd ambell wyneb a phryder ynddo ar dro a'r llall a llawenydd yn chware ar hyd-ddo bob amser.

Syllais yn hir nes canfod yr olaf yn noswylio yn y pelltder—Cerddodd y dyn bach deirgwaith o amgylch y maen ond yn ei wrthol. Fel y cerddai yr oedd y llwybrau goleu'n culhau. Yr oedd yn eu dirwyn megis. Edrychwn arno ac ae yn llai nes diflannu ohono ef a'i lwybrau o'm golwg i.

Trois innau tua thref ar fy union—Yr oedd golwg wyllt a dieithr arnaf. Euthum i'r gwely ond nid i gysgu. Ar dorriad y wawr drannoeth trois eilwaith tua'r maen. Fe'i gwelwn o bell. Yr oedd rhyw henwr yn eistedd arno. Eisteddais innau. Wedi ymgomio dro, gelwais ei sylw at y llwybrau oedd yn gwau ol a blaen ac yn dal yn goch.

"O!" meddai'r henwr, "y mae'r llwybrau'n dal er fod y fforddolion wedi mynd. Draw," meddai gan gyfeirio'i fys, "mae Troedyrhiw, Caercoed," gan fynd dros y rhestr. Yna edrychodd arnaf gan ofyn yn wyllt, "A welsoch chwi y llwybrau goleu ar y rhos?"

Ni allwn ameu. Yna siriolodd ei wyneb. "Dyna'r llwybrau oedd yn arwain i Gaeronnen slawer dydd," y sisialodd wrthyf, "a'r hen saint yn eu cerdded fel cynt."

Aeth yntau fel y dyn bach y noson gynt. Trois innau tuag adref ond nid dros y llwybyr ond tros y glâs. Yr oedd y llwybrau yn rhy gysegredig i mi. Ond pan fyddaf yn wangalon a siomedig trof i'r hen rôs. Eisteddaf ar yr hirfaen er cael cip o'r newydd ar

"Lwybrau'r Saint."

Y SYNAGOG.

Ni ellir penderfynu gyda sicrwydd amser ymddangosiad cyntaf y Synagog. Nid oes yn yr Hen Destament ond un cyfeiriad at y sefydliad ac hyd yn oed yn y man hwnnw nid yw ystyr y frawddeg yn eglur. Pan ddywed y Psalmydd (74 : 8). "Llosgasant holl Synagogau Duw yn y tir," mae'n amheus a oedd yn meddwl am unrhyw adeiladau o gwbl. Yn amser Iesu ar y llaw arall ceir fod Synagogau wedi dyfod yn wir gyffredin, a hynny ers cryn amser. "Canys" yn ol Actau 15 : 21 "y mae i Foses ym mhob dinas, er yr hen amseroedd, rai a'i pregethant ef, gan fod yn ei ddarllain yn y Synagogau bob Sabbath." Y tebygolrwydd yw fod y sefydliad, fel llawer o ddatblygiadau eraill, wedi dyfod i fodolaeth yn amser y caethiwed ym Mabilon. Ar ol dinistr y Deml y cwbl a fedrai'r Iddewon wneuthur oddicartref oedd cadw'r Sabbath a myfyrio'r gyfraith a thraddodiadau'r genedl. Dywed y Parch. R. T. Heroford "ei bod yn naturiol i feddwl am danynt fel cymydogion a chyfeillion o'r hen gartref yn cydgyfarfod o fan i fan er mwyn cysuro a chalonogi y naill y llall yn eu gofid a'u trallod; a bod hyn yn ddigon i gyfrif am wreiddyn y Synagog." Yn ddiweddarach ar ol iddynt ddychwelyd i Ganaan, yn lle diflannu daeth yr arferiad yn fwy cyffredin. Perthynai i'r Synagog lawer o fanteision nad oedd y deml yn feddiannol arnynt. Pan ail-adeiladwyd yr olaf yr oedd yn ofynnol i fyned i Jerusalem er mwyn mwynhau ei defnyddioldeb. Ni ellid mwyach godi allor mewn unrhyw fan ond ar fynydd Seion. Ond i'r gwrthwyneb hawdd oedd adeiladu Synagog mewn unrhyw ran o'r wlad lle yr oedd dymuniad am dani. Tarawiadol yw geiriau y Dr. Carpenter yn y cysylltiad hwn: "Ni

allai'r Iddewon fodloni mwyach ar un canolfan crefydd. Yr oeddynt yn wasgaredig bellach nid yn unig drwy un wlad ond drwy lawer o wledydd. Mewn canlyniad ceir fod ganddynt ym mhell cyn amser Iesu fath newydd ar addoliad. Gwnai hwn i fesur helaeth yr hyn wneithid yn flaenorol gan yr hen allorau, sef dwyn crefydd yn ol i'r wlad o'r brif-ddinas a'i chysylltu a bywyd beunyddiol y werin. Felly rhaid i ni bellach gymryd i ystyriaeth ddau ddatblygiad crefyddol, a dwy gyfundrefn o grefydd —y deml a'i haberth, a'r synagog a'i gweddi a'i dysgeidiaeth." Yn wyneb y cyfryw ddatblygiad gellir dweyd gyda sicrwydd mae yn y cyfnod hwn y daeth y sefydliad adnabyddus y soniwn am dano i fodolaeth gyntaf. Cyfnewidiad pwysig arall tua'r un amser oedd y pwyslais osodid ar addysg. Dywedir i'r Iddewon ar ol y caethiwed ddyfod yn genedl y llyfr. Wrth yr olaf golygir yn fwyaf neillduol y gyfraith. O hyn allan y prif beth yng ngolwg y mwyafrif oedd nid offrymu aberth ond astudio deddf Moses. Yn y cysylltiad hwn eto rhoddid i'r Synagog y lle blaenaf. Edrychid arni nid yn unig fel addoldy ond hefyd fel ysgoldy yn hytrach. Ond yn wahanol i ysgolion yn gyffredin nid oedd terfyn ar gyfnod addysg y Synagog. Y prif beth ym mywyd yr Iddew oedd bod yn gynefin a'r gyfraith ac yn y Synagog delid y ddelfryd hon o'i flaen drwy ei holl fywyd. Nid rhyfedd felly fod y sefydliad wedi llanw lle pwysig yn natblygiad y genedl a'i fod yn parhau i fod yn flodeuog hyd y presennol ym mha ran bynnag o'r byd y mae'r Iddewon yn cartrefu. Goroesodd y grefydd Iddewig ddinistr y deml am fod ei gwir drigfan wedi eu drosglwyddo am gryn amser cyn hynny i'r Synagog.

Yn rhinwedd ei phwysigrwydd nid anniddorol fydd ystyried yn fyr y Synagog fel adeilad, ac yn fwy fyth am y gwasanaeth neu addoliad gynhelid ynddi.

Gellir dweyd heb unrhyw betruster mae prif briodoledd y Synagog ym mhob ystyr—mewn perthynas i'r adeilad a'r addoliad oedd symlrwydd. Yn hyn o beth yr oedd yn wir wahanol i'r deml. Nodweddion arbennig yr olaf oedd ffurf a mawredd. Cedwid y werin ac yn enwedig ddieithriaid ym mhell oddiwrth yr allor. Nid oedd hawl i neb agoshau yno ond i'r offeiriaid, ac i'r Cysegr Sancteiddiolaf nid oedd mynediad ond i'r archoffeiriad yn unig. Hyn sydd i gyfrif yn debygol am y ffaith fod y Synagog wedi gwreiddio mor ddwfn ym mywyd a serch y mwyafrif. I lwyddo rhaid i grefydd fel popeth arall ddal cysylltiad agos a bywyd ymarferol y bobl. Fel adeilad nid oedd y Synagog yn amser Iesu yn anhebyg i gapel yn y dyddiau hyn. Ar y llawr rywle tua'r canol ceid llwyfan bychan ac yn sefyll arno ryw fath ar bulpud, lle darllenid yr ysgrythurau. Ym mhen draw yr ystafell ac yn wynebu y drws yr oedd cist neu arch yn cynnwys y rholau sanctaidd. Trefnid y seddau i ddwy ran. Y prif-seddau y sonir am danynt gan Iesu yn yr Efengylau yn union o flaen yr arch ac yn wynebu y lleill oedd a'u cefnau tuag at y drws. Mae gennym dystiolaeth fod rhyddid i'r benywod ar y cyntaf i eistedd lle bynnag y dewisent. Yn ddiweddarach, am ryw reswm neu gilydd, rhaid oedd iddynt eistedd ar wahan. Nid oedd ar y Synagog weinidog yn ystyr bresennol y gair. Dyledswydd yr Arch-Synagogydd oedd gofalu fod popeth yn cael ei gario mlaen yn weddaidd a rheolaidd. Yn ychwanegol at hyn ceir fod yno swyddog arall. Gorffwysai ar hwn amryw orchwylion gwahanol. Efe ofalai am y rholau sanctaidd. Dygai hwynt allan o'r arch a gosodai hwynt yn ol yn drefnus ac yn barchus ar y terfyn. Yn aml disgwylid iddo hefyd i ddysgu'r plant i ddarllen. Yn olaf ei ddyledswydd ef oedd gweinyddu cerydd ar ran yr awdurdodau. Tebyg mai o dan law hwn y derbyniodd Paul bum waith deugain gwialennod ond un. Os oedd yr adeilad, fel y dywedais, yn debyg i dy capel yn y dyddiau presennol gellir dweyd fod trefn y gwasanaeth hefyd i fesur o'r un natur. Dechreuid yn ddieithriad gyda'r geiriau adnabyddus "Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd" ac yn y blaen. Dilynid hyn gan weddi neu yn hyt-

rach weddiau—rhai o honynt yn rhydd a rhai yn osodedig. Yn nesaf darllenid rhannau o'r gyfraith a chyfieithid hwy o'r gwreiddiol i'r Aramaeg yn adnod am adnod. Hwn o bosibl oedd y prif beth yn yr holl wasanaeth. Ar ol y gyfraith darllenid a chyfieithid—er nid mor fanwl—rannau hefyd o'r Proffwydi. Fel ychwanegiad at yr olaf yr oedd yn agored i'r darllenydd siarad ychydig eiriau fel math ar eglurhad neu esboniad i'r darn o dan sylw. Darllenwn am Iesu yn myned i'r Synagog yn Nazareth ar y Sabbath ac yn cyfodi i fyny i ddarllen. "Ac wedi iddo gau'r llyfr (Esaias), a'i roddi i'r gweinidog (y swyddog y soniwyd am dano uchod), efe a eisteddodd (codid i ddarllen ac eisteddid i siarad). Ac efe a ddechreuodd ddywedyd wrthynt, "Heddiw y cyflawnwyd yr ysgrythyr hon yn eich clustiau chwi" (Luc 4 : 16-21). Wedi gorffen y rhan hon terfynid drwy gyhoeddi'r fendith. Y mae nifer o'r gweddiau ddefnyddid yn y Synagog yr amser hwnnw o hyd ar gael. Gan ei bod yn naturiol i feddwl eu bod wedi cael lle yn aml ar wefusau Iesu nid anniddorol fydd edrych ar ran o'u cynnwys fel engraifft. Dywed un :—"Bendigedig fyddi Di O Arglwydd, brenin y byd, Ti luniaist y goleuni ac a greaist y tywyllwch, awdwr heddwch a phob peth oll ; Ti, yn Dy drugaredd roddi oleuni i'r ddaear ac i'r sawl sydd yn byw arni ; Ti, yn Dy ddaioni, o ddydd i ddydd, a phob dydd, wyt yn adnewyddu gwaith y cread. Bendigedig fyddo Arglwydd ein Duw ni am ogoniant gwaith ei law a'r goleuadau a rydd oleuni y rhai a wnaeth er mwyn Ei ogoniant. Bendithia Dy bobl Israel a heddwch mawr am byth ; canys Ti wyt frenin ac arglwydd pob heddwch a da yn dy olwg yw bendithio Dy bobl Israel a gogoniant bob amser a phob awr." Hawdd yw gweled felly fod crefydd y Synagog yn fyw, rhydd a dyrchafedig. Medrai unrhyw un bron gymryd rhan yn y gwasanaeth. Yno ac ar yr aelwyd gartref y cafodd Iesu ei syniadau cyntaf am Dduw a phethau'r Ysbryd. Nid oes hanes am dano yn dweyd dim yn amharchus am y Synagog. Mynychai ei haddoliad mor aml ag oedd cyfle ganddo. Ond condemniai awyddfryd a bydolrwydd y blaenoriaid oedd yn awyddus am eistedd yn y prif seddau. Gwyddai Iesu fel y gwyddom ni fod y sefydliad hyd yn oed yr amser hwnnw yn llanw lle pwysig ym mywyd y genedl Iddewig. Hawlia ein parch ni heddiw yn fwy fyth am mai yno yn fwyaf neillduol y derbyniodd Iesu ei ymborth moesol ac ysbrydol. Gellir dweyd heb unrhyw anhawster am y Synagog ei bod wedi bod yn offeryn nerthol yn llaw Duw i gynnal nid yn unig Iddewaeth ond hefyd drwy Iesu a'i ganlynwyr cyntaf Gristionogaeth yn ogystal.

J. Park Davies.

YR YSBRYD.

Echnos yr oeddwn ar ddihun bron drwy'r nôs. Nid cynt y cauwn fy llygaid nag yr oedd rhywun wrth yr erchwyn. Gwylltwn dyna'i gyd. Nid oedd ofn arnaf rywsut er fod rhywbeth yn oer— yn *creepy* yn y cyfan i gyd. Rhyw lwyd-dywyll yr ydoedd a'r lloer yn taflu tywyn arian ar draws yr ystafell. Ni ddoe cwsg yn agos. Gwyliwn y tywyn yn mynd a dod a gwyddwn symud hefyd o'r cymylau. Ambell dro yr oedd yr ystafell a thywyn arian yn chwarae ynddi, dro arall yr oedd yn ddu a minnau mewn tywyllwch. Tu draw i'r fan y chwareai'r tywyn gynneu yng nghornel pellaf yr ystafell yr oedd rhywbeth. Diffurf ydoedd ond o syllu'n hir teimlwn ei fod yn ymffurfio. Yr oedd yn crynu fel y darluniau ar y llen. Tybiais mai lleidr ydoedd ond fod niwl rhyngtho

a myfi. Ni fedrwn waeddi. Ar y foment daeth y tywyn eilwaith gan oleuo'r ystafell a gwelais ffurf ac wyneb cydnabod yn eglur.

"Wil," meddwn ond ni ddoe ateb. Ar y foment peidiodd y goleu. Tremiwn i'r gwyll. Daeth y goleu eilwaith. Nid oedd neb yno. Teirgwaith y chwareodd gastiau a myfi a'r un peth bob tro. Ni fedrwn ei esbonio ac wrth feddwl am y peth fe ddaeth cwsg o'r diwedd a melys oedd.

Anghofiais y cyfan drannoeth. Yr oeddwn yn brysur drwy gydol y dydd heb hamdden i synfyfyrio ar ddigwyddiadau'r noson gynt. Eto yr oedd rhyw deimlad oer yn aros. Ni feddyliais am Wil. Ni welais mohono er fy mod yn arfer ei weld bob dydd. Tybed ei fod yn sal a minnau heb wybod. Aeth y dydd i ben a'r noson gynt yn mynnu mwy o le yn fy meddwl. Wedi noswylio o bawb ond fy hunan credais y cawn awr dawel mewn myfyrdod melys. Nid cynt yr oeddwn wedi gosod fy hun yn gysurus o flaen y tân nag y dechreuais wrando. Ust! *Dyna gnoc ar y drws*! Cysurwn fy hun mai'r drws nesaf ydoedd. Eisteddais eilwaith ond yn ofer. Dyna'r cnocio eilwaith. Gwylltais. Meddyliwn a myfi fy hun fod y bobl drws nesaf wedi noswylio'n gynnar ac yn cysgu'n drwm. Tybed y buasai raid i mi fyned i'r drws i'w deffro. Nid oeddwn yn caru rywsut y syniad. A minnau'n cloffi rhwng dau feddwl beth i wneuthur, dyma'r cnocio'n dechreu'r trydydd tro. Nid oedd yn wiw oedi'n hwy oherwydd yr oedd y cnocio i'w glywed fel ego drwy bob man a'r drwg am dani, yr oedd y cnocio ar ein drws ni. Nid oedd y goleu rywsut ond pŵl. Euthum at y drws gan ei ddatgloi'n gynnil bach. Troais yr allwedd ynddo. Yr oedd fel clo rhydlyd. O'r diwedd fe'i hagorais ond nid oedd neb yno. Tybed ei fod wedi blino disgwyl. Cloais y drws eilwaith, ond cyn imi symud o'r fan dyma gnocio wedyn. Yr oedd y cnocwr pwy bynnag ydoedd fel pe buasai yn erfyn imi agor. Fe'i hagorais. Ni welwn neb ar y cyntaf, ond o'r gwyll fe ddoi rhywun o bell.

"Wil," meddwn, "Ti sydd yna. Dere'i mewn." Fe ddaeth a chloais innau'r drws. Cerddai o'm blaen i'r gegin a minnau'n cofio'r noson gynt. Eisteddodd fel arfer. Dywedais wrtho hanes y noson gynt. Edrychais drohir arno. Nid oedd yn f'ateb. Meddyliwn ei fod yn ofidus neu'n hiraethlon. Edrychais eilwaith ymhen ennyd. Nid oedd yno.

Ni fedrwn esbonio. Teimlwn fy hyn yn crynu o golli'r ymwelydd anweledig. Ofer oedd aros ar lawr. Ni fedrwn weithio. Penderfynais noswylio ond cyn fy mynd dyma gnocio ar y drws fel cynt. Tybiwn ei bod yn llwfrdra i beidio agor. Agorais y drws a daeth Wil i mewn. Cydiais yn ei ysgwydd ac yr oedd yma'n awr heb os nac onibae. Edrychodd yn wyllt arnaf oherwydd imi afael ynddo ond wedi imi esbonio, eisteddodd. Galwai plant yr ardal ef "*Yn Ysbryd*." Ni wn i paham. Gwr teneu a thal ydoedd yn cerdded fel dau o'r gloch. Cerddai bob amser fel pe bai rhywun wrth ei ochr a siaradai a'r anweledig. Cofiwn lysenw Wil, "*Yr Ysbryd*." Nid pell oeddwn innau o'i alw felly weithion. O'i anfodd megis y siaradai am y pethau hyn ond rywsut rhoddai'i gyfrinach i mi ambell dro. Adroddais fy helynt wrtho a disgwyliwn iddo wenu fel arfer oherwydd dywedwn i na welais ddim erioed. Gwelwodd ychydig dyna i gyd. Tybiwn ei fod yn crynu. Ymhen ennyd heb imi ofyn iddo, dywedodd ei fod yn meddwl am danaf drwy gydol y nôs. "Nid oeddwn yn caru aflonyddu arnoch yn hwyr fel hyn a cheisiais beidio dod, ond bu raid imi," meddai.

"Yr wyf wedi gweld llawer peth," ychwanegai, "ond neithiwr tua hanner nôs yr oeddwn yn fy ngwely. Rhyw synfyfyrio yr oeddwn heb deimlo yn rhy dda. A minnau felly rhwng cwsg ac effro, clywais sŵn fel torf yn cerdded. Doi'r trwst yn nes a theimlwn fod rhywrai wrth ddrws fy ystafell. Yr oeddwn yn iawn. Pasiai angladd heibio i mi. Adnabyddwn bob wyneb ac yr oeddech chwi ynddo."

"Angladd pwy ydoedd?" gofynnwn "Nid oes neb wedi marw hyd y gwn

i." "Na minnau ychwaith," atebodd. "Codais ar fy eistedd ond yn fy myw ni fedrwn sylwi ar blât yr arch. Yr oedd ofn arnaf ddarllain yr enw."

Ni ddywedodd air am ennyd, ond ymhen tipyn dywedodd. "Dwy waith y'i gwelais neithiwr a'r ail waith cyfeiriodd llaw at y cloc ar y mur. Safai hwnnw ar hanner nôs." Plygodd ei ben. Ni welais mohono erioed o'r blaen yn ddrylliog ei deimladau. Ymhen tipyn edrychodd arnaf i ac ar y cloc. Yr oedd y cloc yn cyfeirio at chwarter i ddeuddeg. "Y mae rhywbeth i ddigwydd heno," meddai, "ar hanner nôs." Gwyliem ein dau fysedd y cloc. Gwrandawem ar ei dic, tebig a disgwylia'r llofrudd ei awr yntau. Ni wyddwn i beth i ddisgwyl. Edrychwn arno ef ac ar y cloc. Yr oedd ef a'i ddwylo dan ei ben. Nid yw cloc mawr y dref meddyliwn, yn cadw hanner y sŵn a'r cloc bach sydd gennyf i. Yr oedd pob tic yn dod a'r anweledig yn nes. Nid oedd dim am dani ond disgwyl a hir yw pob aros. Mor araf yr ae'r bysedd. Nid oeddent bron yn symud ac eto symudent yn ddigon buan a minnau heb wybod a oedd ar ddigwydd. "Nid oes ond munud eto," meddwn wrtho. Yr oedd yn rhaid dywedyd rhywbeth. "Ie," meddai, a dyna'i gyd. Ar y trawiad cyntaf, wele'r ystafell yn tywyllu a rhyw oleu coch a phwl yn lledu dros y cyfan. Yn y man clywem dramp y dorf. Gwylltodd fy nghyfaill gan ddywedyd "Y mae'r angladd yn dod! Edrych ar yr enw." Deelleis ei awgrym a'i ofn. Ymhen ennyd doi'n nes nes. Yr oeddem fel pe buasem wedi'n hoelio wrth y llawr. Yr wyf wedi aros droion i weld angladd yn mynd yn drist heibio. Heno yr oeddwn yn ei weld yn dod o draw ac ar flaen y dorf gwelwn fy hun mewn dillad duon. Edrychais yn hir. Yn y man daeth yr elor heibio. Codais ar fy nhraed a sylwais ar yr ysgrifen. Bum bron a gwaeddi allan ond o gofio ymateliais. Pasiodd yr angladd. "Wel" meddai Wil. Ni fedrwn edrych ym myw ei lygaid o gofio'r enw ar yr arch.

"Greffaist di arno?" gofynnai eilwaith a braw yn llanw'i lygaid. "Na ddo," meddwn innau, yn ddigon cloff. Cododd ar unwaith fel dyn wedi torri'i galon ac aeth allan i'r nôs heb yngan gair. Nid oedd yn fy nghoelio, ac yr oedd yn iawn. Euthum innau i'r gwely gan feddwl am a welais a'r enw. Fore trannoeth dyma gnoc yn fore ar y drws, a llais yn dywedyd

"Wyddoch chwi pwy sydd wedi marw?"

"Gwn: Wil" meddwn innau yn ddifeddwl. Synnid sut y gwyddwn ond gwyddwn fwy nag a wyddent hwy. Ni fedrai'r meddyg na'r *crowner* na'r rheithwyr esbonio'i farw. Yr oedd yn anesboniadwy ond i mi a thewais innau. Ni fedrid dywedyd ond hyn—Fod Yr Ysbryd wedi ffoi, dyna'i gyd.

MARWGOFION.

Mehefin 20, yn 35 mlwydd oed, Mrs. Rachel Howells, annwyl briod Mr. William Howells, Dinas Villa, Pencader. Yr oedd yr ymadawedig yn ferch i Mr. a Mrs. Thomas, Cross Inn Farm, Llanfihangel-ar-arth. Byr fu cystudd yr ymadawedig, a theimlid chwithdod gan ei chydnabod pan noswyliodd mor gynnar. Yr oedd yn hynod am ei sirioldeb a'i ffyddlondeb, a gweithiodd yn galed dros ei theulu ieuanc. Yr oedd, er yn ieuanc wedi ymaelodi yng Nghapel y Graig, Llandysul, ac er y pellter yr oedd yn ffyddlon gyda'r achos a'r Ysgol Sul. Gadawodd mewn galar a hiraeth o'i cholli, briod, tri o blant ieuanc, tad a mam, chwiorydd a brawd a llawer o berthynasau eraill a chyfeillion. Y dydd Iau dilynol cludwyd yr hyn oedd farwol ohoni i fynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. T. Arthur Thomas; cymerwyd rhan yn y gwasanaeth yn y capel gan y Parch. J. T. Hughes, Ficer Llanfihangel-ar-arth ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins.

MEHEFIN 21, ar ôl cystudd maith a chaled Daniel, annwyl briod Mary Griffiths, Tandderi, Capel Dewi, Llandyssul, yn 60 oed. Gweydd oedd wrth ei alwedigaeth ac wrth ddilyn ei grefft bu yn byw mewn llawer ardal ac yn gweithio mewn llawer ffatri ac felly daeth yn adnabyddus i lawer. Yr oedd yn weithiwr diwyd a didwyl ac yn ddyn o ysbryd diniwed ac yn gwmniwr diddan. Gadawodd mewn galar briod a phedwar o blant, a fu'n ffyddlon iawn iddo yn ei gystudd: dau frawd ac amryw berthynasau eraill. Claddwyd y Gwener dilynol ym mynwent Capel yr Hafod pryd gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins ac E. Glyn Edwards.

MEHEFIN 23, yn 78 mlwydd oed, Mary Davies, priod Mr. Thomas Davies, Blaencwrt, Llanwenog. Gwanychodd ei hiechyd amryw o flynyddau yn ol, a pharodd hynny iddi gael ei chyfyngu i gylch ei chartref dros y gweddill o'i bywyd. Cystuddiwyd hi yn y diwedd am rai misoedd. Un dawel a di-drwst ydoedd, ac heb awydd am fod yn amlwg. Ond y tu fewn i'w chylch deuai rhinweddau prydferth i'r golwg yn ei bywyd, ac adnabyddid hi gan ei chydnabod fel dynes o feddyliau cywir, o ysbryd hynaws a charedig, ac o egwyddorion uniawn. Profodd ei hun yn briod dda, ac yn fam ofalus. Gweithiodd yn galed tra yr oedd ei nherth yn ei galluogi, a gwnaeth ei goreu hyd y gallodd dros ei theulu. Collodd ei hunig ferch, a adawodd blant ar ei hol. Cafodd yr hyfrydwch o weled ei hunig fab, sef, Dr. D. J. Davies, B.A., Ysgol Sir, Aberystwyth, wedi esgyn i safle anrhydeddus. Yr oedd yn aelod ffyddlon o eglwys Capelybryn, ac wedi bod yn llafurus yno gyda'r Ysgol Sul. Claddwyd y Sadwrn canlynol yng Nghapelybryn. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chymerwyd rhan gan y Parch. E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd, a T. O. Williams, M.A., Brondeifi. Gadawodd briod, mab, wyrion, un brawd a dwy chwaer, yng nghyd a pherthynasau agos eraill mewn galar dwys.

SUL, Mehefin 27, yn 9 mlwydd oed, Mary, geneth fechan Lewis a Katie Rees, Morgan Street, Trebanos.

A'r Sabath oedd hi,
Ac egwyl sant,
A'r haf yn ei fyd
Ar fryn a phant.

A'r trigolion yn sugno o iechyd yr awel fwyn ehedai dros y pentre bach, —clybuwyd, ar hanner dydd, fod Mary Rees, yn eisieu. Bernid hyn, a bernid arall, a phrysurwyd i chwilio yma ac acw, a phryder yn awr wedi gafaelyd ym mhob calon, ac ofn yntau yn frenin ar ei sedd. Erfyniem am newydd da; ond wele, ni ddaw a ddisgwyliwn. Aeth gyda'i chwaer ar neges, a maentumir iddi syrthio'n ddiarwybod i neb,—hyd yn oed i'w chwaer a oedd megis o fewn hyd braich ati. Ofnwyd y gwaethaf, a chafwyd hi yn nyfroedd y gamlas gerllaw. Bu'r meddygon ac eraill wrthi'n galed a diwyd yn ceisio adfer y bywyd bach, ond yn ofer. Rhwygodd y newydd fynwes y tad a'r fam; a brathwyd calon ei chwaer hefyd a oedd gyda hi ac a'i collodd mewn moment. Bydd eglwys y Graig yn wacach ar ol hyn. Yr oedd hi yn un o blant bach talentog yr Ysgol Sul, a medrai adrodd a chanu'n hyfryd iawn. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn yr Alltwen. Gwasanaethodd y Parch. D. Johns, Gosen; a chynorthwywyd yn y tŷ annedd gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos. Dyma un o'r angladdau mwyaf welwyd yn y cylch, ac enw Mary Rees ar fant y dyrfa. Sicr yw, y caiff ei rhieni, y brawd a'r chwaer, a'r cysylltiadau lluosog gysuron diatal yn y ffaith i'r ymadawedig fod y fath fodel o fywyd amlwg a phert; yr oedd yn iach a byw, a brwd o hyd, parod i bopeth. Dadrysai'n ddidrafferth broblemau addysg, fel y prawf ei llwydd i ddod yn gyntaf yn ei dosbarth yn yr ysgol ddyddiol; ac nid rhyfedd hynny oherwydd yr oedd y fath ysbryd dod i wybod popeth ynddi. Planed llaw'r haf flodau cofiant ar ei beddrod newydd.

Siriolach Mair fach ni fu—ni welwyd,
Anwylach mewn teulu;
Ni all angladd byth gladdu
Un mor gain, geneth mor gu.

BANOS.

MEHEFIN 30, yn 32 oed, bu farw John Evans, mab y diweddar Rhys ac Anne Evans, Cwmmynach, ger Cribyn, yng Nghaerdydd, ar ol cystudd byr. Ymadawodd o gymydogaeth Cribyn ac yntau yn gymharol ieuanc. Yn fuan ar ol dechreu'r Rhyfel, ymunodd a'r fyddin, a llwyddodd i ennill y safle o Ringyll. Yn un o'r brwydrau cafodd ei glwyfo; ni lwyr wellhaodd o effeithiau ei glwyfau, a buont yn ddiameu yn foddion i fyrhau ei fywyd. Bachgen o ysbryd hynaws, caruaidd, ufudd ydoedd; a hoff ydoedd gan bawb a'i hadwaenai. Dygwyd ei weddillion i'w gosod ym medd gweddillion ei dad ym mynwent Capel Cribyn y Sadwrn canlynol. Gadawodd ar ei ol un brawd—Timothy Davies, Penynant, Llanwnen—ynghyd a nifer luosog o berthynasau agos eraill. Gweinyddwyd yng Nghribyn gan y Parch. D. Evans.

GWENER, Gorffennaf 2, yn 55 mlwydd oed, William H. Morgan, Butcher's Arms, Narberth. Hannai ein cyfaill hoff o Drebanos, ac ychydig amser yn ol symudodd y teulu i Narberth, gerllaw lle ganwyd a magwyd cymar ei fywyd. Meddai ar iechyd cymharol dda drwy ei oes, ac eithrio blwyddyn neu ddwy olaf ei fywyd. Yr oedd yn un o ddeuddeg o blant, ac y mae yntau y trydydd ohonynt y sydd wedi cefnu ar y byd hwn a'i drafferth. Tra sydyn y bu ei farwolaeth; nid oedd neb wedi meddwl am hyn. Trymach felly o'r herwydd yw'r ergyd ym mhob digwyddiad tebig, yn arbennig felly pan symudir pen teulu. Aeth nifer luosog o gylchoedd Cwmtawe, a lleoedd pell eraill i Narberth i chwyddo'r cynhebrwng a thalu iddo yntau'r parch olaf. Aed a'r arch i gapel y Bedyddwyr, lle mynychai'r teulu, a phregethwyd yn ddynol iawn a thyner gan weinidog y lle, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. D. G. Rees, Trebanos. Claddwyd ym mynwent yr Eglwys yn Narberth. Gedy ef weddw a dwy ferch i alaru am y golled mewn hiraeth, ond ni a obeithiwn y cant eto hwy ynghyd a'i frodyr a'i chwiorydd nerth i ddal yn hy yn wyneb y brofedigaeth lem. Eiddunwn, hefyd i'w annwyl dad oedrannus sydd ar ol, gysur mawr, weddill ei yrfa faith ar y ddaear.

O gyfoed anwylaf,
Ehedodd ein hoed,
A thithau i'r briddell
Yn unig a roed;
Dy bwyll a'th amynedd
A hoffais yn fawr,
O gyfoed fy mywyd,
Ffarwel iti'n awr.

BANOS.

GORFFENNAF 10, yn 53 mlwydd oed, Simon Jones, Blaen Llanarth, plwyf Llanarth, a gerllaw Mydroilyn. Bu yn gwaelu am dros flwyddyn, a bu ei gystudd yn un poenus ar adegau. Dechreuodd ei yrfa fel siopwr. Cafodd ei gyflogi fel egwyddor-was yn Siop y Jones, Cwrtnewydd. Yr oedd yn barchus iawn yno. Wedi hynny bu mewn masnachdai mawrion yng Nghaerdydd a Llundain. Ymfudodd i Ddeheudir Affrica, a bu yn dilyn ei alwedigaeth yno. Yr oedd yno pan dorrodd allan Ryfel y Boeriaid, a bu'n filwr yn y rhyfel hwnw o'i ddechreu i'w ddiwedd. Ar derfyn y rhyfel hwnw dychwelodd i'w ardal enedigol, ac ymhen ychydig amser ymbriododd. Wedi hynny newidiodd ei alwedigaeth, ac ymsefydlodd ef a'i briod ym Mlaen Llanarth, lle y bu yn amaethwr llwyddiannus. Yr oedd o feddwl craffus iawn, ac yn meddu ar gôf da, ac er nad oedd wedi cael ond ychydig fanteision addysg, yr oedd wedi casglu llawer o wybodaeth. Meddai ar awen y bardd, a phe bae wedi cwrteithio y ddawn honno, diau y byddai yn fardd da. Yr oedd o ysbryd siriol a llawen, ac yn gyfaill diddanus iawn. Parai hynny ei fod yn hoff gan bawb. Gweithiodd yn galed fel amaethwr, a dilynid ei ymdrechion gyda llwyddiant, ond yng nghanol amgylchiadau dymunol gostyngwyd ei nerth. Claddwyd yr Iau canlynol ym mynwent eglwys Capelyfadfa. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams Capelybryn, a chynorthwywyd gan y Parchn. D. R. Thomas, Mydroilyn, E. Glyn Edwards, Seion, Cwrtnewydd T. O. Williams, M.A., Llanbedr ac E. O. Jenkins, Capelyfadfa. Gadawodd briod, pedwar brawd, dwy

chwaer, amryw o neiaint a pherthynasau eraill mewn galar mawr.

Gwys a roir ar gais yr Ion—yw'r
Er ingoedd cyfoedion ; (angau,
I'r gweryd o'r byd a'i bo'n
O'i symud yr aeth Simon.

Ei Gefnder.

Gwr dyfal, diofalon—ei rodiad ;
Caredig o galon :
Ynghaead mae'r llygad llon,
Chwerw y siom na cheir Simon.

Gorffennaf 11, yn 80 mlwydd oed, wedi cystudd byr iawn, bu farw Mary Hartley, Pantybryn, gynt o Goedeiddigfach, Plwyf Pencarreg. Hi oedd yr olaf o hen deulu caredig a chymwynasgar ac yn dwyn mawr sel dros grefydd. Yr oedd ein chwaer o galon siriol a diwenwyn ac iddi air da gan bawb o'i chydnabod. Nid oedd ffug na rhagrith yn perthyn iddi ac yr oedd yn galondid a iechyd bod yn ei chwmni. Galwyd hi adref ar hwyr Sul a bu farw'n dangnefeddus. Y dydd Iau canlynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Brondeifi. Yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog. Gadawodd neiaint a pherthynasau eraill i alaru ar ol "Benyw yn ofni yr Arglwydd."

Gorffenaf 16, yn 78 mlwydd oed, Mrs. Mary Jones, Brynowen, Llandysul. Yr oedd yr ymadawedig yn weddw i'r diweddar Mr. John Jones, Lledrwr, Camnantfach. Gwelodd yr ymadawedig ddyddiau lawer ar y ddaear, a threuliodd hwynt mewn llawn gwaith hyd y diwedd. Ni fu allan o'r ardal erioed. Ymaelododd yn ieuanc ym Mhantydefaid a bu am 63 o flynyddoedd yn aelod didor yno. Bu yn aelod gweithgar ar hyd y blynyddoedd a phob amser yn heddychlon a thangnefeddus. Yn ei ffordd seml ei hun llanwodd bob cylch, yn y cartref, yr eglwys a'r ardal gydag anrhydedd. Colled fawr i bob cymdeithas yn enwedig y cylch erefyddol ydyw colli aelod felly. Bydd ei choffadwriaeth nid yn unig yn fendigedig ond yn alwad ac ysbrydiaeth i eraill ddilyn ei hol. Gadawodd mewn galar o'i cholli ddwy ferch, mabynghyfraith, ac wyrion. Y dydd Mawrth dilynol gosodwyd yr hyn oedd farwol i orffwys ym mynwent Pantydefaid. Gwasanaethwyd yn y ty a'r capel gan y Parch. T. Arthur Thomas, ac ar lan y bedd gan y Parch. E. O. Jenkins. "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth."

NODION YR EGLWYSI.

BWLCHYFADFA.—Apel. Mae'r eglwys hon yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf wedi gwario tua £900 ar brynu les yr hen gapel, adeiladu neuadd newydd ar gyfer yr ysgol Sul, etc., a sicrhau tŷ capel yn lle'r hen dŷ y sydd wedi mynd yn bur wael. Erbyn hyn mae holl *property* y gynulleidfa mewn cyflwr da ac yn wir hardd. Mae tua £140 yn eisiau eto cyn y bydd y gynulleidfa yn rhydd o ddyled ac anturiwn apelio'n garedig at gyfeillion yr achos am gynhorthwy er dileu y ddyled hon. Derbynir unrhyw rodd—bychan a mawr—yn ddiolchgar gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

CYMANFA YSGOLION.—Cynhalhaliodd Ysgolion Ciliau, Rhydygwin, Cribyn, Capelybryn a'r Cwm, eu Cymanfa yng Nghribyn ar y 4ydd o Fehefin. Adroddodd pob un ohonynt eu rhannau pennodedig o lyfr Actau, a holwyd gan y gweinidogion lleol. Adroddwyd amryw Salmau gan aelodau o'r Ysgolion yn y bore a'r prynhawn. Yr oedd gwedd lewyrchus ar yr Ysgolion, ac aeth pob un ohonynt trwy eu gwaith yn rhagorol. Yn yr hwyr caed *Rehearsal* tan arweiniad Mr. Tom Davies, Pensarn.

(*Oherwydd diffyg gofod gadawyd allan hyd y rhifyn nesaf amryw Nodion yr Eglwysi, yn cynnwys "Trip yr Ysgol Sul," "Llongyfarchiadau," &c.*)

J. D. Lewis, Argraffydd, Gwasg Gomer, Llandyssul.

JUST PUBLISHED.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS; etc., Rose Trees, Tomato Plants, Begonias, Geraniums, Lobelias, Palms, Ferns, etc.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist,

CARMARTHEN.

Telegrams—COYSH, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.

For Suits and Costumes to order from 50s.

—Mourning at Shortest Notice.—

... Satisfaction Guaranteed. ...



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through 1850 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE : 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations : Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.